Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Eich cynrychioli chi:

## Afan Ogwr Rhondda



Ein cyfeiriad ar-lein:
**senedd.cymru**

**Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.**

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Eich cynrychioli chi

### Mae gan Gymru ei senedd ei hun – sef Senedd Cymru.

Mae Senedd Cymru yn pasio deddfau am bob math o bethau sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd yng Nghymru.

Pethau fel ysbytai a meddygon teulu, ysgolion ac addysg, ffyrdd a rheilffyrdd, ffermio, diwylliant, yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg.

Mae gan y Senedd 96 o Aelodau a etholwyd o bob cwr o Gymru. Maen nhw'n eich cynrychioli chi a'ch cymuned yn Senedd Cymru.

# Eich cynrychioli chi a'ch cymuned

## Mae'r Aelodau o'r Senedd yn dod o bob rhan o Gymru i'ch cynrychioli chi a'ch cymuned yn y Senedd.

Mae gan Aelodau o'r Senedd swyddfeydd ledled Cymru, yn y cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli.

Maen nhw'n cynnal sesiynau galw heibio, o'r enw cymorthfeydd, sy'n gyfle i chi gwrdd â nhw a thrafod materion lleol a allai fod yn bwysig i chi. Gallwch hefyd gysylltu â nhw ar-lein neu dros y ffôn.

Ar ôl clywed gennych chi, gallai eich Aelod dynnu sylw at eich pryder yn y Senedd. Gallan nhw ofyn cwestiwn neu drefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn – ein fforwm agored i holl Aelodau o'r Senedd gyfarfod a thrafod materion mewn cyfarfod cyhoeddus.

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n eich cynrychioli chi, a chael gwybod sut i gysylltu â nhw, drwy fynd i senedd.cymru/aelodau**



# Cynrychioli eich buddiannau chi

## Mae Aelodau o'r Senedd yn trafod, yn gwirio ac yn gwneud deddfau sy'n llywio bywyd yng Nghymru.

Gall y Senedd wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru mewn llawer o feysydd. Mae cyfreithiau Cymru yn ystyried y sefyllfa yng Nghymru, a all fod yn wahanol i rannau eraill o'r DU.

Ond, mae rhai meysydd yn berthnasol i bob rhan o'r DU ac y mae Senedd y DU a Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol amdanyn nhw.

**Cewch wybod mwy am beth sydd wedi'i ddatganoli i Gymru a beth sydd wedi'i gadw gan Senedd y DU a Llywodraeth y DU drwy fynd i senedd.cymru/pwerau**

### Gall Cymru wneud ei chyfreithiau a'i pholisïau ei hun ynghylch:

- Amaethyddiaeth a Bwyd
- Addysg
- Cymunedau a Tai
- Gwasanaethau Iechyd a Gofal
- Y Gymraeg
- Yr Amgylchedd

### Mae Llywodraeth y DU a Senedd y DU yn gwneud deddfau a pholisïau ynghylch:

- Trafnidiaeth yn yr awyr
- Ynni niwclear
- Y gofod
- Materion tramor
- Amddiffyn
- Plismona

### Deddf Cymru 2017

Newidiodd Deddf Cymru 2017 y ffordd y mae datganoli'n gweithio yng Nghymru.

Cyn hynny, dim ond yn yr 21 o feysydd a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yr oeddem ni'n gallu deddfu.

# Eich Senedd, yn gweithio i chi

**O drafod deddfau ym Mae Caerdydd i gefnogi pobl yn eu milltir sgwâr, mae Aelodau o'r Senedd yn chwarae rhan hanfodol wrth lywio bywyd yng Nghymru.**


Mae gan bawb yng Nghymru chwe Aelod o'r Senedd i'w cynrychioli. Maen nhw'n cynrychioli eich ardal chi – yn trafod eich pryderon ac yn gweithio ar faterion sy'n bwysig i chi.

Gallwch gysylltu ag unrhyw un ohonyn nhw – wyneb yn wyneb, ar-lein, neu dros y ffôn – dim ots dros bwy y gwnaethoch chi bleidleisio. Mae'r chwech yn eich cynrychioli chi'n gyfartal.



**Dewch o hyd i'r Aelod o'r Senedd sy'n eich cynrychioli chi**
senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/afan-ogwr-rhondda

# Afan Ogwr Rhondda



Mae chwe Aelod o'r Senedd yn cynrychioli cymunedau yn eich ardal chi, yn codi eich pryderon ac yn gweithio ar faterion sy'n bwysig i chi.

**Gallwch gysylltu ag unrhyw un ohonynt, dim ots dros bwy y gwnaethoch chi bleidleisio.**

Six Members of the Senedd represent communities in your area, raising your concerns and working on issues that matter to you.

**You can contact any of them, no matter who you voted for.**



**Steve Bayliss**

Reform UK
Reform UK



**Alun Cox**

Plaid Cymru
The Party of Wales



**Sera Evans**

Plaid Cymru
The Party of Wales



**Huw Irranca-Davies**

Llafur Cymru
Welsh Labour



**Ben McKenna**

Reform UK
Reform UK



**Elyn Stephens**

Plaid Cymru
The Party of Wales